Rhyddiaith: Pennod gyntaf nofel

Dan 25

Beirniad: Mared Lewis

Diolch i bawb am gystadlu, a chefais fwynhad o ddarllen pob ymgais.

Mae pennod gyntaf nofel yn un go anodd i'w sgwennu: rhaid rhwydo'r darllenydd gyda chyffro a digon o gwyreinrwydd i sichrau bod isio darllen ymlaen. Rhaid gosod sefyllfa'r nofel, a chyflwyno cymeriadau sydd yn gofyn am eich cwmni, heb i'r holl beth ymddangos yn rhy ymdrechgar. Rhaid dweud digon ond dim gormod, a gwneud hynny mewn ffordd gynnil. Tipyn o dasg!

Dyma air bach am bob un yn nhrefn y darllen.

**Bendigeidfran**

Llwyddwyd i greu cymeriad oedd yn denu diddordeb o'r dechrau yma, gan greu golygfa o ddyn ifanc yn myfyrio ar ei fywyd wrth gerdded ar ei ffordd i'w waith. Mae rhywbeth yn amlwg yn ei boeni, a chawn awgrymiadau cynnil o hyn. Ceir diweddglo da, sy'n denu.

Efallai fod ormod o adrodd cefndir yma ar brydiau, ond mater o chwynnu yw hyn. Pennod agoriadol addawol.

**Croes**

Mae'r stori fer yma yn ymdrin â seibr fwlio, ac yn rhoi cip i ni o'r elfen o feirniadu arwynebol ymhlith criw o gyfoedion y prif gymeriad. Rhaid gofalu fodd bynnag fod pob cyffelybiaeth yn talu am ei le. Mae cyffelybiaeth effeithiol iawn fel 'Tynnodd Medi ei throed yn ôl ac ymlaen ar y carped, llinell syth fel ceg ei thad' yn cael ei golli ynghanol y cyffelebiaethau eraill sy'n britho'r gwaith.

**Dragan**

Mae Dragan yn llwyddo yn syth i'n llusgo I mewn I fyd hanesyddol sydd hefyd yn llawn pwerau goruwch naturiol. Mae Buddug y prif gymeriad cryf yn un o'r Marwanau sy'n meddu ar ddoniau gwyrthiol, ac o'r herwydd mae pobol am ei gwaed. Sefydlwyd digon o berthynas Buddug a Cadog y tafarnwr i sicrhau nofel

ddifyr iawn yn pendraw. Hoffais hefyd y ffaith fod y rhythm yn teimlo'n gywir i bennod gyntaf: roedd digon yma i ddenu chwilfrydedd ond heb lethu.

Gwylier mân  lithriadau gramadegol wrth fynd ati i ôl olygu'r bennod ardderchog yma.

**Draig**

Ceir craidd syniad difyr iawn gan 'Draig', sef y bwysau sydd ar ysgwyddau chwaer y brenin sydd ar fin cael ei goroni. Atgoffir rhywun o ddrama 'Siwan' wrth i'r ferch rannu teimladau gyda'i morwyn.

Er waetha'r sefyllfa ddiddorol,  mae angen ffrwyno'r sgwennu ar brydiau a bod yn fwy atalgar wrth ddisgrifio emosiwn er mwyn i'r gwaith gyffwrdd y darllenydd. Hefyd mae modd defnyddio deialog fel arf i ddod â chymeriad yn fyw., ac osgoi adrodd. Gan edrych eto ar y deunydd crai addawol, mae potensial yma.

**Draig cath**

Does dim dwywaith fod gan 'Draig Cath' ddychymyg byw, ac mae'r syniad o Sofia, cymeriadau ar y cyrion, yn ceisio achub ei thref rhag y perygl sydd yn 'y twll' yn un difyr. Ond mae ôl brys braidd ar y gwaith, ac mae angen llawer mwy o ofal gyda threigladau a chamsillafu

**H.G.Watts**

Golygfa apocalyptaidd a gawn gan y cystadleuydd yma hefyd, ac mae'r syniad o ryfel cemegol yn anghysurus o agos i'r asgwrn ar hyn o bryd. Ond er waetha egin o syniad da, mae angen mwy o gynllunio, a sicrhau fod yr iaith yn lân a'r cymeriadau'n cydio.

**Mefus**

Portread gonest a chredadwy o brofiad merch ysgol mewn Eisteddfod a geir yma, gyda chymeriadau sy'n argyhoeddi. Mae yma egni yn yr ysgrifennu, a hiwmor wrth i Mefus ddarlunio'r gwahaniaethau rhwng diwylliant cefn gwlad y

Canolbarth a diwylliant metro ysgolion Cymraeg y brifddinas. Daw dawn ysgrifennu 'Mefus' yn amlwg gyda brawddeg fel:

'Roedd y pebyll lliwgar yn prysur ffurfio fel madarch seicadelig hyd y cae'

Baswn wedi hoffi cyflwyno rhyw rhuban storîol arall i gyfoethogi'r bennod, o bosib, ac i annog darllen ymlaen.

**Melyn**

Stori merch yn y chweched dosbarth sy'n ei chael hi'n anodd cael y balans rhwng bywyd cymdeithasol a bywyd ysgol a geir yma; stori ddifyr ond ddim yn un newydd! Mae gormod o ragymadroddi am y chwyrnu yn y darn cyntaf, a chefais  y portread o'r fam braidd yn ystrydebol, ac ôl brys ar ddiwedd y bennod.

**Mukherjee**

Llwydda'r ymgeisydd yma i greu sefyllfa llawn tensiwn o'r dechrau un, gan afael yn sylw'r darllenydd yn syth. Gwyddai sut i ddefnyddio arddull fel brawddegau byr i greu sefyllfa o symud chwim, ac mae rhywun yn teimlo dros y ffrindiau wrth iddyn nhw wynebu sefyllfa anodd yn yr hen adeilad. Er hyn, doedd y deialog ddim yn taro'n gwbl naturiol i griw o bobol ifanc, ac o bosib ceisiodd Mukherjee wasgu gormod i mewn i un bennod. Ond cefais flas mawr ar y sgwennu.

**CANLYNIAD:**

Roedd cryn bendilio rhwng yr ail a'r trydydd safle, ond dyma ni:

Yn 1af – Dragan, am ei gymeriadu effeithiol a'i allu i greu sefyllfa yn gwbl llwyddiannus, gydag addewid o fwy.

2il – Mefus , am ei hysgrifennu egniol llawn hiwmor oedd yn taro deuddeg.

3ydd – Mukherjee am lwyddo i greu sefyllfa wirioneddol ddramatig yn effeithiol iawn.

Diolch i bawb arall am gystadlu. ML.